**EPT-16-01 (min)**

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 14 Tachwedd 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 4:30 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Bob Macey (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Amgylcheddol |
| Lyn Owen (eitem 3) | Yr Is-adran Gynllunio |

***Yn bresennol:***

| | |
|---|---|
| Jonathan Adams (eitem 3) | Y Grwp Llywio Dylunio |

| | |
|---|---|
| Tom Cassidy (eitem 4) | Prif Weithredwr, Cadw |
| Richard Avent (eitem 4) | Pennaeth Arolygiaeth, Cadw |
| Douglas Hogg (eitem 4) | Prif Bensaer, Cadw |
| Andrew Hood (eitem 4) | Pennaeth Cyflwyno, Cadw |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Helen Mary Jones a John Griffiths.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5. Dywedodd Geraint Davies ei fod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** – EPT-16-01 (p 1)

2.1 Yn ychwanegol at yr eitemau yn yr adroddiad, rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y materion canlynol:

- Llifogydd – roedd yr adroddiad ar lifogydd wedi ei ohirio tan y Flwyddyn Newydd er mwyn rhoi sylw i'r ymgynghoriad y mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar fin ei gynnal ar gyllido gwaith atal llifogydd yng Nghymru a Lloegr. Roedd y Gweinidog eisoes yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Phwyllgor Atal Llifogydd Cymru i symleiddio'r mecanwaith cyllido;

- Glas Cymru – roedd yna groeso eang i'r ffaith bod £41 miliwn o elw yn cael ei ailfuddsoddi er mwyn gwella gwasanaethau i gwsmeriaid. Y strwythur perchenogaeth newydd oedd wedi gwneud hyn yn bosibl.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Ansawdd dwr – mynegodd rhai aelodau bryder ynglyn â'r gostyngiad yn ansawdd rhai o afonydd a dyfroedd ymdrochi Cymru, yn enwedig yng Ngogledd Cymru. Bu gwelliant drwyddo draw yn ansawdd y dwr, ond roedd rhai ardaloedd yn dal i wynebu problemau. Roedd nodyn briffio wedi ei gylchredeg yn egluro'r gostyngiad yn nifer y Dyfarniadau Baner Las ar gyfer 2001, a chroesawai'r Aelodau y ffaith y byddid yn ymchwilio ymhellach i'r achosion.

- Mesur Cadwraeth y Môr a Bywyd Gwyllt – pa bai'r mesur i gyrraedd y llyfr statudau byddai'n rhoi dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i ddynodi ac amddiffyn safleoedd cadwraeth newydd;

- Rheoliad CE ar oergelloedd – roedd yna bryder o hyd ynglyn â deddfwriaeth yr UE i atal allforio oergelloedd sydd wedi eu hadnewyddu o Aelod Wladwriaethau'r UE. Codai hyn gwestiynau ynglyn â'u gwaredu. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn ymchwilio i effaith hyn yng Nghymru, yn enwedig i Awdurdodau Lleol, ac roedd swyddogion yn cysylltu ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sydd â'r cyfrifoldeb pennaf yn y DU.

- Llosgi gwastraff – roedd y Gweinidog wedi trafod y pryderon ynglyn â llosgi gyda'r Farwnes Young, Prif Weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymrwymo i chwarae rhan lawn yn y gwaith o lunio a gweithredu Strategaeth Gwastraff i Gymru;

- Olynydd Railtrack – mynegodd y Pwyllgor yr angen am gynrychiolaeth gref o Gymru ar fwrdd y corff olynu. Roedd angen buddsoddi hirdymor sylweddol, a'r gobaith oedd y gellid cyflwyno llawer o welliannau fel rhan o fasnachfraint newydd Cymru a'r Gororau. Byddai'r Pwyllgor yn gwahodd olynydd Railtrack a'r sawl a gaiff y fasnachfraint newydd i gyfarfod yn y dyfodol;

- Diogelwch y ffordd – Croesawai'r aelodau y cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer Cyd-drefnwyr Plant ar Draed, a phwysleisiwyd yr angen i barhau i fuddsoddi dros y blynyddoedd i ddod.

**Eitem 3: Sefydlu Comisiwn Dylunio i Gymru** – EPT-16-01 (p 2)

3.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd Sue Essex mai'r Comisiwn Dylunio oedd y ffordd ymlaen er mwyn gwella safonau dylunio yng Nghymru. Rhoddodd Jonathan Adams o'r Grwp Llywio Dylunio ei syniadau ef am Gomisiwn Dylunio i Gymru (copi ynghlwm yn atodiad 1).

3.2 Croesawai'r aelodau y ffaith bod Comisiwn Dylunio i Gymru i gael ei sefydlu a chanolbwyntiodd y drafodaeth ar yr agweddau canlynol:

- Aelodaeth – câi'r Comisiwn ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol a byddai'r aelodau yn cwmpasu ystod eang o fuddiannau proffesiynol yn y maes dylunio;

- Dylanwad – ni fyddai gan y Comisiwn Dylunio rôl statudol, ond byddai'n hyrwyddo safonau uchel ym maes dylunio a phensaernïaeth drwy hybu dealltwriaeth ehangach o ddylunio. Awgrymwyd y dylai'r Comisiwn Dylunio ‘gymeradwyo’ neu ‘wobrwyo’ enghreifftiau da o ddylunio, yn enwedig yng nghyswllt prosiectau uchel eu proffil, i osod meincnod i'r arferion gorau;

- Cynllunio – pwysleisiodd yr aelodau yr angen i'r Comisiwn Dylunio sicrhau bod y broses gynllunio yn rhoi sylw i ystyriaethau dylunio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd cadwraeth. Roedd angen hefyd rhoi sylw i'r diffyg sgiliau dylunio o fewn awdurdodau cynllunio lleol. Roedd y canllawiau cynllunio yn cael eu hadolygu ac roedd TAN Dylunio newydd wedi ei gyflwyno i awdurdodau cynllunio lleol, sydd â'r hawl i wrthod caniatâd am y rheswm bod y dylunio yn wael.

**Eitem 4: Cadw – adroddiad hanner tymor** – EPT-16-01(p 3)

4.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd Tom Cassidy fod y perfformiad wedi dirywio o'i gymharu â'r llynedd oherwydd effaith clwy'r traed a'r genau. Bellach roedd henebion Cadw i gyd ar agor ac roedd ffigyrau mis Hydref yn fwy calonogol, gyda hanner gyntaf y flwyddyn bellach yn dangos gostyngiad o 9% mewn busnes, yn hytrach na'r 10% a nodwyd yn y papur.

4.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol:

- Adennill y farchnad ymwelwyr a gollwyd – roedd Cadw yn gweithio gyda Bwrdd Croeso Cymru i annog ymwelwyr tramor i ymweld â Chymru. Efallai fod y mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau Cymru hefyd yn cyfrannu at y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr;

- Targedau – targed Cadw oedd cwblhau'r gwaith o ailarolygu eiddo rhestredig erbyn 2005, ond nid oedd targed o ran nifer yr eiddo ac roedd y cyfanswm yn debygol o gyrraedd 30,000. Teimlai'r Pwyllgor fod angen adolygu targedau Cadw yn gyffredinol, i wneud yn siwr eu bod yn ymgorffori'r elfen bolisi yn ogystal â'r swyddogaethau mwy gweithredol . Byddid yn ymdrin â hyn fel rhan o arolwg pum-mlynedd Cadw sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, a byddid yn trafod yr adroddiad interim drafft yn nhymor y gwanwyn;

- Partneriaeth ag awdurdodau lleol – roedd Cadw yn ymgynghori ynglyn â'r posibilrwydd o ddirprwyo caniatâd adeiladau rhestredig i'r awdurdodau cynllunio lleol, yn unol â'r drefn yn Lloegr.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor â chynnig Cadw i gynyddu prisiau mynediad yn unol â chwyddiant.

4.4 Câi sesiynau manylu eu cynnal yn flynyddol yn y gwanwyn i'r dyfodol cyn cyhoeddi cynllun corfforaethol Cadw. Roedd yr aelodau hefyd yn awyddus i ymweld ag un o safleoedd Cadw i gael dysgu mwy am y gwaith yn y fan a'r lle.

**Eitem 5: Cofnodion cyfarfod 31 Hydref** - EPT-15-01 (min)

1. Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

6.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 28 Tachwedd 2001 yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2001**

**ATODIAD 1**

**CYFLWYNIAD GAN JONATHAN ADAMS – Y GRWP LLYWIO DYLUNIO**

Mae pobl yn Lloegr, yn enwedig yn y cyfryngau metropolitan, wedi deall ers blynyddoedd lawer fod ansawdd dylunio adeiladau a dylunio amgylcheddol yng Nghymru yn is nag yn unrhyw ranbarth arall o'r DU.

Yn ôl y Shell Guide to Wales a gyhoeddwyd yn 1971 *"The visitor should remember that in architecture, as other matters, English standards do not apply."*

Dywedodd y beirniaid yng nghystadleuaeth gwobrau Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain

1999 *"... if schemes which aren't up to standard get an award it devalues the system. On the other hand it's wrong for London to suffer, and I'm more inclined to give Wales's awards to projects in London."*

Yn gynharach eleni, dywedodd papur newydd yr Observer am Gaerdydd *' It is a sad example of a city that, given the choice between the second rate and the excellent, has no hesitation in grabbing the former'.*

Er bod yna or-ddweud a bod y feirniadaeth yn ei hanfod yn annheg, mae iddi gnewyllyn o wirionedd. Ac i ryw raddau bu'r rhagfarn hon yn cyflawni ei hun.

Nid cyd-ddigwyddiad mohono bod y bwlch economaidd sy'n bodoli rhwng Cymru a gweddill tir mawr Prydain yn adlewyrchu'r gwahaniaeth mewn safonau dylunio. Mae erydu gwerthoedd dinesig yn un ffactor sy'n amlygu anawsterau economaidd, ond mae'n ffactor amlwg iawn i'r llygad. Os yw'r bwlch mewn safonau dylunio i gael ei gau, megis y bwlch mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, rhaid i hynny gael ei gyflawni gan sefydliadau Cymreig yn gweithredu ar ran Cymru.

Caiff mwyafrif y ceisiadau cynllunio yn Lloegr eu penderfynu heb geisio cyngor uniongyrchol ar agweddau dylunio oddi wrth y Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig sydd â'i ganolfan yn Llundain. Fodd bynnag, mae proffil uchel y corff hwn a'r gefnogaeth gref a gaiff gan y llywodraeth ill dau yn ffactorau sydd wedi helpu'n fawr i godi'r diwylliant dylunio yn Lloegr i lefel fwy soffistigedig.

Yn union fel sy'n digwydd yn yr Alban, mae caffaelwyr, dylunwyr ac awdurdodau statudol yn Lloegr i gyd yn gweithredu o fewn amgylchedd sy'n llawer mwy sensitif i werth rhagoriaeth dylunio. Mae llywodraeth Whitehall a'r Alban wedi buddsoddi'n drwm, ac yn parhau i wneud hynny, er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o ddylunio, gan eu bod yn gwybod bod hynny'n fodd i ddiffinio hunaniaeth leol, ennyn balchder dinesig, creu ffyniant a sicrhau cydnabyddiaeth ryngwladol.

Meddylir am Gymru fel cenedl sydd wedi ei bendithio â thirwedd godidog ond sydd wedi ei anrheithio â chreithiau diwydiannu ansensitif. Nid yw ond cenedl fach ac nid yw hyd yn oed ei rhannau mwyaf gwyllt fyth ymhell o ddylanwad yr amgylchedd trefol.

Ar hyn o bryd, ac fel y bu yn hanesyddol, mae Cymru'n agored i gael ei hecsbloetio am resymau tymor byr. Disgwylir i ni groesawu pob mewnfuddsoddiad, yn enwedig ym maes diwydiant a thai. Cred buddsoddwyr masnachol nad oes ganddynt fawr i'w ennill o osod safonau uchel wrth godi adeiladau hapfasnachol; gellir gwneud elw yn y tymor byr er gwaethaf hynny a, heb fuddiant hirdymor, nid effeithir ar y buddsoddwr gan y dirywio a achosir drwy hynny. Yn amlach na pheidio, mae'r datblygwyr dan sylw, ynghyd â'u henillion ariannol, wedi eu lleoli y tu allan i Gymru.

Mae gan Awdurdodau Unedol dargedau anodd i'w cyflawni i godi cartrefi newydd, ac maent i gyd yn ymdrechu i ddenu cyflogaeth newydd. Ar hyn o bryd, yr unig adeg pryd y gellir rhoi rhyw drefn ar waith i farnu rhinweddau cynllun o safbwynt dylunio yw o fewn trefniadau cynllunio awdurdodau lleol. Ond gan fod ffactorau economaidd yn cael cymaint o sylw wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio mae'r sgiliau sy'n ofynnol i lunio barn ynglyn â rhagoriaethau dylunio wedi crebachu ar hyd ac ar led.

Nid yw swyddogion cynllunio, ychwaith, wedi eu hyfforddi ym maes dylunio, theori na hanes dylunio, ac fel arfer nid oes ganddynt fwy o ddiddordeb mewn dylunio na'r lleygwr cyffredin. Yn sgîl methiant y system gynllunio i gynnal safonau dylunio rydym yn gweld, dro ar ôl tro, bod datblygiadau dirmygus yn cael eu caniatáu i raddau na ellid eu dychmygu mewn amgylcheddau cyffelyb yn Lloegr neu'r Alban.

Er bod rhannau mwyaf poblog ein gwlad yn frith o gyn-safleoedd diwydiannol tir llwyd, o dan y system fel y mae ar hyn o bryd mae'r cwmnïau adeiladu sy'n swmp-godi tai yn ei chael hi'n hawdd iawn osgoi adeiladu arnynt, a defnyddio safleoedd tir glas o'r ansawdd uchaf, lleoliadau trefol aeddfed a hyd yn oed orlifdiroedd yn lle hynny.

Mae'r diffyg ffrwyno hwn, a'r ffaith na ellir gwrthsefyll addewid o fuddsoddiad adfywio, pa gyfaddawdu bynnag sydd ymhlyg yn hynny, wedi arwain at lu o ddatblygiadau siopa ansensitif, yn agos at ganol trefi hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth, ac wrth ddynesu at ein prif drefi i gyd. Canlyniad anochel hyn yw bod cymeriad neilltuol yr amgylcheddau hynny – yr ansawdd a'i gwnâi yn Gymreig - wedi ei golli

Mae cyswllt uniongyrchol rhwng ansawdd bywyd ac ansawdd amgylchedd cymuned. Mae'n amlwg i bawb bod amgylcheddau gwael neu ddigymeriad yn cyfrannu at fywydau anhapus. Mae'r un mor wir bod amgylcheddau braf yn cyfrannu at fywydau iachach a hapusach.

Mae ansawdd ymyriadau a gynllunnir yn holl-bwysig er mwyn cynnal hunaniaeth a hunan-barch cenedl, ond hyd yma ni fu yna asiantaeth gyda chylch gwaith ar draws Cymru gyfan i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwella'r hyn sydd gennym yn barod, ac nad ydynt yn ei ddiraddio.

Efallai y bydd yna nifer o elfennau i waith ein Comisiwn Dylunio newydd, ond yn y bôn rhaid iddo ymdrechu i ennyn cydweithrediad a goleuo arferion y busnesau a'r cyrff cyhoeddus sy'n comisiynu gwaith adeiladu newydd, gan mai nhw sy'n diffinio'r paramedrau y gall dylunwyr weithio oddi mewn iddynt.

Ddwy flynedd yn ôl, pan ddechreuais weithio gyda'r Sefydliad Materion Cymreig i godi'r ddadl hon, nid oedd yn glir o gwbl ymhle yr oeddem ni, yng Nghymru, yn sefyll. Daeth datganoli i rym yn union yr un pryd bron ag y diddymwyd Comisiwn Brenhinol y Celfyddydau Cain yn Llundain, comisiwn yr oedd ei enw da wedi edwino o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd StJohn o Fawsley.

Roedd yn amlwg bod Comisiwn Brenhinol y Celfyddydau Cain gynt yn cynnwys Cymru yn ei gylch gwaith – er na throdd erioed gymaint â 2% o'i sylw i'n cyfeiriad ni. Yn lle'r Comisiwn hwn sefydlwyd y Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig. Roedd y corff newydd i gael ei noddi gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, a awgrymai y câi Cymru ei gadael i fynd i'w ffordd ei hun.

Yn wir, roeddem ni wedi sylweddoli hyn cyn i'r Comisiwn newydd wneud hynny. Wrth fanylu ar gymynrodd Comisiwn Brenhinol y Celfyddydau Cain a chylch gwaith uchelgeisiol y Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig, hawdd oedd dod i'r casgliad yn y mater hwn, fel mewn llawer mater arall, mai'r ffordd orau o wasanaethu Cymru fyddai drwy iddi gael ei sefydliad pwrpasol ei hun.

Caiff y Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig ei gyllido'n hael gan ei noddwyr ac, yn y ddwy flynedd ers ei sefydlu, mae eisoes wedi bod yn hynod lwyddiannus yn sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed, ar adeg pan fo i ddulliau caffael cyhoeddus newydd y potensial un ai i gyfoethogi'r amgylchedd adeiledig yn Lloegr yn ddirfawr, neu, os na chânt eu rheoli, i'w israddio'n ddrwg. Mae rôl y Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig yn holl-bwysig ar yr adeg hon.

Mae'r potensial i Gomisiwn Dylunio Cymru wneud gwahaniaeth gwirioneddol yma yn fwy fyth. Yn y cyswllt hwn, mae'r ffaith mai cymharol fach yw ein gwlad yn fantais. Rhesymol fyddai disgwyl iddo gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol o fewn degawd neu lai – wrth ddweud hynny yr hyn a olygaf yw y dylem ddechrau gweld adeiladau harddach, mwy cynaliadwy a mwy trawiadol yn ymddangos: adeiladau sy'n ffyddlon i'w cyd-destun ond sydd ar yr un pryd yn gydnaws â'r safonau dylunio cyfoes gorau.

Efallai y dylem ddisgwyl i'n Comisiwn ni fod yn fwy radical a mwy effeithiol na'r corff cyfatebol un ai yn yr Alban neu yn Lloegr.

Gan fod ein dealltwriaeth o hunaniaeth cenhedloedd eraill wedi ei seilio i'r fath raddau ar adnabyddiaeth o'u ffurfiau adeiladu neilltuol, efallai fod i'r fenter hon, lawn gymaint ag unrhyw fenter arall efallai, y potensial i godi ymwybyddiaeth ryngwladol o Gymru fel cenedl ar wahân, ac i adeiladu ar hynny i'r dyfodol.

Mae'r cyllid y mae'r Cynulliad eisoes wedi ei gyfeirio i'r Comisiwn yn cael ei groesawu'n fawr iawn. Yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru yr wythnos ddiwethaf, er enghraifft, gwelwyd lefel o gefnogaeth, brwdfrydedd ac ewyllys da nas teimlwyd tuag at unrhyw fenter arall yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Ategir y gefnogaeth hon ymysg y cyrff eraill a gynrychiolir ar Grwp Llywio Menter Ddylunio y Cynulliad Cenedlaethol. Ynghyd â'r brwdfrydedd hwn, wrth gwrs, daw lefel uchel o ddisgwyliadau.

Ym mlwyddyn gyntaf ei fodolaeth bydd y corff newydd yn canolbwyntio ei ymdrechion ar lunio cysylltiadau, gosod ei nodau, ei ddull gweithredu, a'r lefel o gyllid y mae ei hangen arno i fod yn ddichonadwy. Bydd y Cynulliad ei hun, mae'n siwr, yn gefnogol ei agwedd tuag at y cynlluniau a nodir gan y Comisiwn. Er mwyn gwireddu ei botensial mae'n sicr y bydd angen ei gyllido hyd at lefel uwch na'r symiau hynny sydd wedi eu dyrannu ar hyn o bryd.

Mae'r Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig yn Llundain yn derbyn bron i bedair miliwn o bunnoedd y flwyddyn. Mae Comisiwn Brenhinol Celfyddydau Cain yr Alban – sydd hefyd ar fin cael ei ailwampio – yn derbyn tua un rhan o ddeg o gyllid y Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig, ac mae'r Alban newydd lansio polisi newydd uchelgeisiol ar bensaernïaeth, y bydd yn rhaid ei gyllido ar lefel lawer uwch na'r hyn sydd wedi cynnal eu Comisiwn ers yr 1920au. Ar yr un pryd ag y mae Cymru yn sefydlu Comisiwn am y tro cyntaf, mae'n ymddangos bod y meincnodau yn cael eu codi.

Os yw'r Comisiwn i wneud y gwahaniaeth angenrheidiol i Gymru, dylai ein Comisiwn ni anelu at gyrraedd y meincnodau hynny, a rhagori arnynt.